YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
DYDDIAD:	**17 Medi 2018**
TEITL YR ADRODDIAD:	**Cais Grant Bach – Radio Ysbyty Gwynedd**
PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Rhoi diweddariad ar y cais a gofyn i aelodau'r Ymddiriedolaeth ailystyried y cais**
ADRODDIAD GAN:	**TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**
GWEITHREDU:	**Penderfynu a ddylid cefnogi'r cais diwygiedig**

1. CEFNDIR

1.1. Cyflwynodd Radio Ysbyty Gwynedd gais Grant Bach am swm o £6,882 a fyddai'n caniatáu iddynt uwchraddio offer darlledu yn eu stiwdio yn Ysbyty Gwynedd.

1.2. Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Grantiau Cyffredinol ei ystyried yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf 2018. Argymhellodd Swyddogion y dylid gwrthod y cais gan fod Ysbyty Gwynedd yn darparu gwasanaeth i nifer fawr o gleifion nad ydynt yn preswylio yn Ynys Môn ac o'r herwydd y byddai'n groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth sy'n datgan:-

"Dibenion elusennol yr Ymddiriedolaeth fydd budd cyhoeddus cyffredinol poblu sy'n preswylio yn y fwrdeistref."

1.3. Yn gyffredinol, roedd Aelodau'r Pwyllgor o blaid cefnogi'r cais, gan gydnabod y buddion y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig i gleifion Ysbyty Gwynedd ond roeddent yn cydnabod y gallai dyfarnu'r grant fod yn groes i Weithred yr Ymddiriedolaeth. Penderfynodd y Pwyllgor ofyn am gyngor pellach gan Gyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r mater ac i ddirprwyo'r hawl i'r Trysorydd wneud penderfyniad terfynol ar y mater.

1.4. Yn dilyn hynny, trafodwyd y mater gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth a oedd yn cytuno â dehongliad gwreiddiol y SwyddogION o'r Weithred Ymddiriedolaeth gan y byddai preswylwyr heblaw am breswylwyr Ynys Môn yn elwa i'r un graddau â phreswylwyr Ynys Môn.

1.5. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn y cyngor a roddwyd a'r penderfyniad i beidio â chefnogi'r cais ond fe wnaethon nhw ddatgan eu bod yn siomedig nad oedd modd rhoi rhyw fath o gefnogaeth i'r sefydliad, a gofynnwyd a fyddai modd i Swyddogion ganfod ffordd o helpu Radio Ysbyty Gwynedd. Mae'r adroddiad a ganlyn yn cynnig ateb a fyddai'n caniatáu darparu rhywfaint o gefnogaeth ariannol i Radio Ysbyty Gwynedd.

2. CAIS DIWYGIEDIG

2.1. Ystyriodd Swyddogion a fyddai'n bosib dyfarnu grant i gyllido cyfran o gostau'r prosiect ar sail pro rata, yn seiliedig ar nifer y cleifion sy'n byw yn Ynys Môn o gymharu â chyfanswm y cleifion sy'n cael eu trin yn Ysbyty Gwynedd.

2.2. Mae Cyfreithiwr yr Ymddiriedolaeth wedi cadarnhau y byddai modd dyfarnu'r grant ar y sail hon ac y byddai'n cydymffurfio â gofynion Gweithred yr Ymddiriedolaeth.

2.3. Cyflwynodd Radio Ysbyty Gwynedd gais rhyddid gwybodaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mewn ymateb derbyniwyd y wybodaeth a ganlyn:-

Blwyddyn Ariannol	Cleifion a Dderbyniodd Driniaeth	Preswylwyr Ynys Môn	Canran Preswylwyr Ynys Môn
2016/17	53,095	17,527	33.01%
2017/18	50,804	16,644	32.76%
2018/19	17,216	5,793	33.65%

2.4. Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner, 33% yw canran preswylwyr Ynys Môn sydd wedi bod yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd.

2.5. Drwy gymhwyso'r ganran hon i'r cais grant gwreiddiol o £6,882, ceir ffigwr grant diwygiedig o £2,271. Mae Radio Ysbyty Gwynedd wedi darparu tystiolaeth i ddangos fod ganddynt arian digonol i gyllido'r £4,611 sy'n weddill.

3. ARGYMHELLIAD

3.1. Fod yr Ymddiriedolaeth yn cymeradwyo dyfarnu grant o £2,271 i Radio Ysbyty Gwynedd ar yr amod eu bod yn darparu'r cadarnhad a'r dystiolaeth arferol i Swyddogion eu bod wedi mynd i gostau i brynu'r offer y manylir arno yn y cais gwreiddiol.

MARC JONES
TRYSORYDD – YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN **11 MEDI 2018**